**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar gynnig Llywodraeth Cymru ynghylch Cyllideb Atodol 2012-13

Chwefror 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# 1. Trosolwg

1. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt AC, ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 ar 5 Chwefror 2013.

2. Ymddangosodd y Gweinidog Cyllid gerbron y Pwyllgor Cyllid[1] ar 20 Chwefror 2013.

3. Ar 5 Mawrth, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trafod a yw am gymeradwyo'r newidiadau a wnaed yn y cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol ai peidio.

4. Yn unol â'r fformat a ddefnyddiwyd wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2013-14, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor sy'n sail i waith craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb.

5. Yr ail Gyllideb Atodol hon yw trydedd ran y broses graffu ariannol, sy'n gylch blwyddyn, ac a ddechreuodd gyda'r Gyllideb Ddrafft yn nhymor yr hydref 2011. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at graffu ar yr adroddiad alldro ar gyllideb 2012-13 yn ddiweddarach eleni.

### Crynodeb

6. Mae tri phrif ddiben i'r gyllideb atodol - yr ail ar gyfer 2012-13:

- mae'n dyrannu arian o'r cronfeydd canolog wrth gefn;
- mae'n dangos y trosglwyddiadau o fewn cyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru a rhyngddynt;
- mae'n gwneud addasiadau i gyfrif am drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU, trosglwyddiadau rhwng refeniw a chyfalaf ac arian a gariwyd ymlaen.

7. Effaith net y newidiadau hyn yw cynnydd cyffredinol o £123.6 miliwn yng nghyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ym mloc Cymru, o'i gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf.

8. Mae'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb atodol yn dyrannu cyfanswm DEL ychwanegol o £121 miliwn i bortffolios Llywodraeth

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2012 Rheol Sefydlog 19

Cymru, o'i gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf, a hynny oherwydd y trosglwyddiadau a nodir uchod.

9. Er bod y gyllideb atodol yn dyrannu arian ychwanegol, mae'r cynnig ei hun, y gofynnir i'r Cynulliad ei awdurdodi, yn gofyn am ostyngiad o £44.4 miliwn yn y swm i'w dalu i Weinidogion Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod mwy o incwm i'w gael o ffynonellau incwm eraill nag a ragwelwyd yn wreiddiol a, chan hynny, mae angen llai o arian o'r Gronfa Gyfunol.

10. Mae'r gyllideb atodol hefyd yn dangos nifer o newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn. Effaith net y newidiadau hyn yw bod cronfeydd refeniw wrth gefn, o'u cymharu â chyllideb atodol gyntaf 2012-13, wedi gostwng £41.9 miliwn tra bo cronfeydd cyfalaf wrth gefn wedi cynyddu £44.6 miliwn.

11. Yn dilyn y newidiadau hyn, mae £61.7 miliwn yn y gronfa refeniw gyllidol wrth gefn, mae £46.4 miliwn yn y gronfa anghyllidol wrth gefn, ac mae £50 miliwn yn y gronfa gyfalaf wrth gefn. Hon yw'r gronfa wrth gefn sy'n weddill, heb ei dyrannu, i ymdrin ag unrhyw bwysau cyn diwedd blwyddyn ariannol 2012-13.

12. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dwyn £109 miliwn (£59 miliwn o refeniw cyllidol a £50 miliwn o gyfalaf) ymlaen i 2013-14 o flwyddyn ariannol 2012-13, yn ogystal ag unrhyw gronfeydd wrth gefn sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cyrff eraill**

13. Nid yw'r gyllideb atodol hon yn gwneud unrhyw newidiadau i gyllidebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae addasiad technegol i amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - mae'r manylion i'w gweld ym Mhennod 5 sy'n ymdrin â phroses y gyllideb.

| |
|---|
| Sylwer: Ffigurau absoliwt yw'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn. Gan fod y ffigurau'n cyfeirio at y flwyddyn ariannol bresennol, ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant. |

## 2. Fforddiadwyedd

### Esbonio'r cais am lai o arian o'r Gronfa Gyfunol

14. Er bod y gyllideb atodol yn dyrannu arian ychwanegol, mae'r cynnig sy'n mynd gerbron y Cynulliad, ac y bydd yr Aelodau'n pleidleisio arno, yn gwneud cais am ostyngiad o £44.4 miliwn o Gronfa Gyfunol Cymru.

15. Yn ystod y broses graffu, nododd y Gweinidog y byddai'r gostyngiad hwn yn gwneud iawn am yr arian a gafwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac Ardrethi Annomestig, a oedd yn fwy na'r amcangyfrifon gwreiddiol, ac nad ydynt wedi'u cynnwys ym Mloc Cymru.

16. Mewn llythyr at y Pwyllgor, yn esbonio'r mater hwn, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid:

> "HM Treasury bears the risk on the volatility of income from National Insurance contributions and Business Rates and when the income from these is lower than forecast, the Block Grant makes up the difference. On this occasion, the opposite was true, and so the cash grant from the Secretary of State has decreased accordingly."[2]

### Arian y GIG

17. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi mynegi pryder cyn hyn am y modd y caiff y Byrddau Iechyd Lleol eu hariannu. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Atodol 2011-12, flwyddyn yn ôl, nodwyd:

> "Looking across the financial reports of a range of Local Health Boards' management board meetings, we are concerned that significant financial risks remain, with a range of Local Health Boards appearing to be at risk of potential deficits."[3]

18. Er inni ddyrannu rhagor o arian iddynt, mae'r pryderon hynny'n parhau heddiw.

---

[2] Llythyr at y Pwyllgor Cyllid: gweler Atodiad A

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar y cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol 2011-12 (Gwanwyn 2012) t17

19. Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft (Tachwedd 2012) gwnaethom addo y byddem, yn ystod y gyllideb atodol hon ar gyfer 2012-13, yn ailystyried a yw adnoddau'r GIG yn ddigonol.

20. Ym mis Rhagfyr 2012, gwnaeth y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ddatganiad yn cyhoeddi y byddai £82 miliwn yn cael ei ddyrannu i'r GIG o'r gyllideb iechyd.[4]

21. Pan holwyd y Gweinidog Cyllid gan y Pwyllgor Cyllid, esboniodd fod yr £82 miliwn yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb Iechyd | £28.6m |
| trosglwyddo arian cyfalaf i'r gyllideb refeniw yn y gyllideb Iechyd | £35.0m |
| ad-dalu broceriaeth | £18.4m |

22. Yn ei nodyn ychwanegol at y Pwyllgor,[5] yn esbonio'r £18.4m o froceriaeth a oedd i'w had-dalu, ychwanegodd y Gweinidog:

> "As I confirmed to the Committee earlier this week, Aneurin Bevan, Cwm Taf and Powys Health Boards have been notified that the combined funding of £12.4m they received in 2011-12 is repayable in full in 2012-13. Cardiff and Vale University Health Board has also been notified that £6m of the £12m provided in 2011-12 is repayable in 2012-13 with the balance of £6m due to be repaid in 2013-14. These repayments do not show on the face of the budget…In each case the revenue resource limits of each Health Board, which sit within the Delivery of Core NHS services Action, have been adjusted to reflect repayments. There is no overall impact on the Action."

23. Mae'r Gweinidog yn sôn am 'ad-daliadau', ac eto, gan fod broceriaeth yn golygu dwyn eu cyllid eu hunain ymlaen o'r blynyddoedd i ddod, nid yw'r Pwyllgor yn deall sut y caiff ei ad-dalu. Yn y cyswllt hwn, roedd y Pwyllgor yn deall y byddai'r froceriaeth yn cael ei 'had-dalu' drwy sicrhau gostyngiad cyfatebol yn eu terfyn adnoddau refeniw ar ddechrau blwyddyn ariannol 2012-13, ac felly mae'n dal yn cael trafferth deall sut y gall yr £18.4 miliwn o 'ad-

---

[4] Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths (y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant), Adolygiad Canol Blwyddyn y GIG, Datganiad (ysgrifenedig), 5 Rhagfyr 2012 [fel ar 11 Chwefror 2013]
[5] Llythyr at y Pwyllgor Cyllid:Gweler Atodiad A

daliadau' fod ar gael i'w ddosbarthu ar hyn o bryd, oni bai bod y terfynau adnoddau wedi cynyddu ar ôl hynny.

24. Er ein bod yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â chymhlethdod cyllid y byrddau iechyd, mae elfen afreal yn parhau ym mhob agwedd ar waith craffu yn y maes hwn - p'un ai yng ngwaith y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Iechyd neu yng ngwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwneud â chyllid y GIG yn ddiweddar.[6] Mae Gweinidogion yn parhau i ddweud eu bod yn disgwyl y bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn mantoli'u cyllidebau - ond er hyn, unwaith eto yn 2012-13, maent yn cynnig rhagor o arian pan ddaw'n amlwg na fyddant yn llwyddo i wneud hynny.

**Ymddengys bod y trefniadau 'broceriaeth' presennol wedi cynnig hyblygrwydd i'r Byrddau Iechyd Lleol ar draul eglurder i unrhyw un sy'n ceisio deall y sefyllfa. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi esboniad clir o'r modd y mae'r trefniadau broceriaeth yn gweithredu'n ymarferol, yn rhoi dadansoddiad clir o ffynhonnell yr £82 miliwn ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu, yn esbonio sefyllfa bresennol y gronfa wrth gefn yn y portffolio iechyd ac yn rhoi manylion yn dangos faint y bydd pob bwrdd iechyd yn ei dderbyn, neu faint y bydd eu terfynau'n cael eu haddasu, o ganlyniad i'r arian ychwanegol hwn.**

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen ar fyrder â'i hadolygiad o'r modd y caiff y GIG ei gyllido, ac y dylai unrhyw system newydd o gyllido'r GIG arwain at system dryloyw, gan sicrhau bod modd dilyn unrhyw newidiadau mewn adnoddau, a chan roi'r hyblygrwydd angenrheidiol i'r Byrddau Iechyd Lleol, ond gan hefyd sicrhau bod y Byrddau'n atebol am gadw at eu rhwymedigaethau ariannol.**

25. Ar wahân i'r ansicrwydd ynglŷn â ffynhonnell yr arian ychwanegol, cafwyd awgrymiadau y bydd o leiaf dau fwrdd iechyd yn methu mantoli'r gyllideb hyd yn oed ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13, er gwaethaf y dyraniadau ychwanegol a gafwyd ym mis Mehefin 2012.[7]

---

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid Iechyd, Chwefror 2013

[7] Wales Online, *Health Minister threatens to remove senior managers if health boards need bailouts*, 6 Chwefror 2012 [fel ar 11 Chwefror 2013]

26. Pan ofynnwyd iddi a fyddai'r arian ychwanegol hwn yn ddigon, atebodd y Gweinidog Iechyd:

> "As you know, and as the Minister has said on frequent occasions, she is in close contact with the health boards and her officials work closely with their finance teams to ensure that they achieve financial break-even. They are monitoring financial performance carefully. Also, she has made it clear that there is flexibility, which has been used and could be made available again next year."[8]

> "My main point is that the Government has committed to reviewing the NHS's finance regime. It is looking at those options for taking forward additional financial flexibilities in the short and medium term."[9]

**Rydym yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[10] i'r froceriaeth fod ar gael fel mesur dros dro, ond rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi manylion yn dangos sut yn union y bydd y froceriaeth yn gweithio os bydd angen manteisio ar y trefniadau hyn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13. Dylai ddangos hefyd a oes unrhyw fwrdd iechyd wedi gwneud cais, yn awr, am hyblygrwydd o'r fath er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2012-13.**

### Cymorth i Dalu'r Dreth Gyngor

27. Mae'r gyllideb atodol yn nodi'r bwriad i ddwyn £19m ymlaen i 2013-14 ar gyfer y cynllun Cymorth i Dalu'r Dreth Gyngor. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi nodi eisoes[11] y byddai angen £22m i dalu'r gost lawn.

28. Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor am y gwahaniaeth, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

---

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2013

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 20 Chwefror 2013.

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid Iechyd, Argymhelliad 7, t38

[11] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau) *Cymorth i Dalu'r Dreth Gyngor*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 17 Ionawr 2013 [fel ar 11 Chwefror 2013]

> "The additional £22 million covers the 10% cut in the funding for 2013-14. That was calculated by the UK Government, based on estimates of expenditure for this financial year of 2012-13. It was also based on Office for Budget Responsibility assumptions on economic forecasts. To clarify how this was calculated, £21 million came from central reserves to provide council tax support to local authorities over the next two years. We are carrying forward £19 million to 2013-14 through the budget exchange system. We are allocating £2 million in this financial year of 2012-13 to help local authorities with their transitional costs of preparing for the change. The remaining £1 million is to be found from the local government and communities MEG as part of its routine budget management."[12]

29. Pan ofynnwyd iddi beth fydd yn digwydd ar ôl 2013-14, ychwanegodd:

> "We are committed to working with Members and local government to review the regulations. We have to bring forward a new set of regulations in line with the sunset clause that was agreed by all parties. There is uncertainty about the impact of welfare reform changes over the next year, which provides us with an opportunity, working closely with local government, to look at how we can develop affordable arrangements from 2014-15 onwards."[13]

> "Local authorities have had that £2 million, which they have welcomed, to help them to prepare for the changes. This is one way in which we are mitigating the impact of some very severe cuts coming through from 1 April."[14]

30. Yn ein gwaith ar y gyllideb ddrafft, tanlinellwyd y byddai angen rhoi rhagor o sylw i'r maes hwn. Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen rhagor o waith yn y cyswllt hwn i roi trefniadau hirdymor ar waith i sicrhau bod cymorth ar gael i dalu'r Dreth Gyngor yng Nghymru.

---

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 20 Chwefror
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 20 Chwefror 2013
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 20 Chwefror 2013.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cymorth fforddiadwy ar gael i dalu'r Dreth Gyngor, a bod y Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y modd y penderfynir darparu ar gyfer hyn yn y dyfodol.**

# 3. Blaenoriaethu

**Y system cyfnewid cyllidebau**

31. O dan y System Cyfnewid Cyllieb, mae Trysorlys y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddwyn arian heb ei wario ymlaen - hyd at uchafswm y cytunwyd arno - o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn, sy'n lleihau'r pwysau i wario arian ym mis Mawrth i osgoi ei golli.

32. Mae'r gyllideb atodol hon yn darparu ar gyfer dwyn £93.1 miliwn ymlaen o 2011-12 i 2012-13. Fel y dangosir yn yr adroddiad alldro ar gyfer 2011-12,[15] yr hyn a oedd yn weddill yn y cronfeydd wrth gefn ar ôl ail gyllideb atodol 2011-12 oedd: £56.8 miliwn o DEL refeniw cyllidol O'r swm hwn, dyrannwyd £28.2 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2012-13 a dyrannwyd £4.8 miliwn arall yng nghyllideb atodol cyntaf 2012-13 (fodd bynnag, fel ar fis Gorffennaf 2012, nid oedd yr addasiadau llinell sylfaen wedi'u gwneud i adlewyrchu hyn). Yn ogystal â hyn, roedd achosion o danwariant a oedd yn golygu mai'r cyfanswm a oedd ar gael i'w ddwyn ymlaen i 2012-13 oedd tua £ 93 miliwn. Felly, mae'r gyllideb atodol yn gwneud yr addasiadau llinell sylfaen hyn i gyfrif am y £93 miliwn cyfan a gaiff ei ddwyn ymlaen.

33. Pan gyhoeddwyd Cyllideb Derfynol 2013-14,[16] nodwyd y bydd £20 miliwn yn cael ei ddwyn ymlaen i flynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15, yn lle dyrannu arian o'r cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â phrentisiaethau. Yn ychwanegol at y £40 miliwn hwn, mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol hon yn nodi'r bwriad i ddwyn £19 miliwn o arian refeniw ymlaen o 2012-13 i 2013-14 mewn perthynas â chymorth i dalu'r Dreth Fyngor,[17] a £50 miliwn o arian cyfalaf ar gyfer y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Byddai hyn yn golygu dwyn cyfanswm o £109 miliwn ymlaen (£59 miliwn o refeniw cyllidol a £50 miliwn o gyfalaf) i 2013-14. Yn dilyn y gyllideb atodol hon, mae'r cronfeydd wrth gefn sy'n weddill yn cynnwys £61.7 miliwn o refeniw cyllidol, £46.4 miliwn o refeniw anghyllidol a £50 miliwn o gyfalaf.

---

[15] Llywodraeth Cymru, *Adroddiad Alldro 2011-12*, Awst 2012 [fel ar 11 Chwefror 2013]
[16] Llywodraeth Cymru, *Dogfen Naratif y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14,* 27 Tachwedd 2012 (tud 5 a thabl 4.1 tud 8) [fel ar 11 Chwefror 2013]
[17] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant, ( y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymuedau) *Cymorth i Dalu'r Dreth Gyngor*,, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 17 Ionawr 2013 [fel ar 11 Chwefror 2013]

34. Fel arfer, ni cheir dwyn mwy na 1.5% o gyfalaf ymlaen. Fodd bynnag, mae Trysorlys EM wedi nodi y bydd yn caniatáu i £50m o DEL cyfalaf gael ei ddwyn ymlaen o flwyddyn ariannol 2012-13 i 2013-14 – dros ddwywaith mwy na'r terfyn arferol. Er na all roi hyn ar waith, mae'r gyllideb atodol hon yn nodi'r bwriad i wneud hyn mewn cyllidebau dilynol.

35. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "I wrote to and raised with the Chief Secretary to the Treasury that we felt that it was important to have as much flexibility as possible and that we intended to transfer nearly £114 million from revenue to capital. This was about safeguarding vital projects and the need for flexibility. He agreed that we could carry over an additional £50 million of capital DEL."[18]

**Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi llwyddo i sicrhau hyblygrwydd ychwanegol o ran dwyn arian ymlaen o'r naill flwyddyn i'r llall, a'r bwriad i ddiogelu prosiectau yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi argymhell mwy o hyblygrwydd, a byddem yn hoffi gweld hyn yn digwydd fel mater o drefn o hyn ymlaen, yn hytrach na'i fod yn rhywbeth sy'n digwydd dim ond unwaith gyda chaniatâd Trysorlys EM.**

**Rydym yn nodi bod y penderfyniad i ddwyn cyfalaf ymlaen i flynyddoedd ariannol eraill yn ymdrin â phryder cynharach y Pwyllgor yn ymwneud â lefel isel y cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2013-14,[19] ac mae'n bosibl y gall ddiogelu prosiectau yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid cymryd gofal wrth roi penderfyniadau o'r fath ar waith, gan y gellid colli cyfle, o bosibl, i ysgogi twf a swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.**

### Cyffuriau gwrthfeirysol ar gyfer y ffliw

36. Mae'r gyllideb atodol yn dangos bod cytundeb â Thrysorlys EM yn ymwneud â dileu £7m o gyffuriau gwrthfeirysol o gyflenwad gwerth £27.9m. Yn ystod ei thystiolaeth, cadarnhaodd y Gweinidog fod rhai o'r cyffuriau hyn - a brynwyd fel rhan o fframwaith o baratoadau at

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 20 Chwefror 2013.
[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14 t16, para 29

ymdopi ag achosion o'r ffliw yn y DU - bron â chyrraedd diwedd eu hoes. Meddai:

> "This goes back to the former health Minister's decision back in 2011 that Wales should be part of the UK framework for pandemic flu preparations. That framework took a precautionary approach to stockpiling antiviral drugs. In fact, pandemic influenza is still at a very high level in terms of national risk assessment. So, we agreed to keep a stockpile in Wales as part of that framework. It is important to give a bit of detail; as of 1 April last year, the value of antiviral drugs stock held by the Welsh Government was £27.9 million—£7 million worth of that was for Tamiflu, but that has an expiry date and that date is the end of March of this year. So that has to be written out of the resource accounts and stock disposed of. Again, this is all part of the UK Government framework, so a budgetary treatment is agreed with the Treasury for flu stock."[20]

**Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi mai penderfyniad Llywodraeth flaenorol oedd y penderfyniad i ymuno â fframwaith y DU a chadw cyflenwad o gyffuriau gwrthfeirysol, hoffem gael gwybodaeth am y sefyllfa o ran y cyflenwadau sy'n weddill a'r hyn a all ddigwydd i'r cyffuriau yn y dyfodol.**

### Mentrau tai

37. Yn ystod Cyllideb Atodol gyntaf 2012-13, datgelodd y Gweinidog wybodaeth am NewBuy Cymru (Cynllun Gwarantu Morgais) a'r Bond Tai gan eu bod wrthi'n cael eu datblygu.

38. Yn ei hymateb ysgrifenedig[21] i gwestiynau'r Pwyllgor yn y cyswllt hwn, datgelodd y Gweinidog fod £50,000 wedi'i ddyrannu i NewBuy Cymru yn 2012-13, ac y disgwylir dyraniadau ychwanegol yn 2013-14. Mae'r Bond Tai yn parhau i gael ei ddatblygu a chytunwyd i ddyrannu £4m ar gyfer 2013-14 a 2014-15 yng nghyllideb derfynol mis Rhagfyr.

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am hynt a chanlyniadau'r dulliau ariannu arloesol hyn, yn enwedig o ran darparu ar gyfer y rhain o fewn proses y gyllideb.**

[20] Llythyr at y Pwyllgor Cyllid: Gweler Atodiad A
[21] Llythyr at y Pwyllgor Cyllid: Gweler Atodiad A

**Buddsoddi i Arbed**

39. Ymddengys bod y gyllideb atodol hon yn trosglwyddo cyfalaf o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed[22] i dalu am drwyddedau meddalwedd. Yn ei llythyr[23] at y Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog fod angen rhagor o refeniw, a llai o gyfalaf, yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ar brosiectau y cytunwyd arnynt, nag a gafwyd mewn ad-daliadau. Gan hynny, cafodd y cyfalaf nas defnyddiwyd ei ailgyfeirio at ddibenion eraill yn y gwasanaethau canolog a'r portffolio gweinyddu (fel y trwyddedau meddalwedd), ac ychwanegwyd symiau a drosglwyddwyd o fannau eraill yn y portffolio at y refeniw.

40. Nodwn fod hyblygrwydd yn yr adnawdd sydd ar gael o fewn y portffolio yn cael ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau bod modd bodloni gofynion y Gronfa hon. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnal ymchwiliad i'r cynllun Buddsoddi i Arbed a bydd yn cyflwyno adroddiad cyn bo hir.

[22] Benthyciad di-log gan Lywodraeth Cymru i gyrff yn y sector cyhoeddus yw'r cynllun Buddsoddi i Arbed. Caiff eu gwariant ei ad-dalu o'r arbedion a wneir. Mae'r arian a ad-dalwyd o'r cylchoedd cynharach yn awr yn cael ei ailgylchu i ariannu ceisiadau newydd.

[23] Llythyr ar y Pwyllgor Cyllid: Gweler Atodiad A

# 4. Gwerth am Arian

**Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach**

41. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi ei bwriad i barhau â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn 2013-14. Pe nai bai wedi gwneud hynny, mae'n bosibl y byddai refeniw canlyniadol o £16.7 miliwn yn dod i Floc Cymru yn 2013-14, o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref 2012. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai'r effaith net, oherwydd y penderfyniad i fod yn rhan o gynllun y DU, fydd gostyngiad refeniw o £6 miliwn ym Mloc Cymru yn 2013-14.

42. At ei gilydd, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu mai cyfanswm y gost, ar ffurf refeniw canlyniadol a gollwyd, o barhau â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, yw £22.7m. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth sy'n dangos a yw'r gost arfaethedig yn cynnig gwerth am arian.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu papur yn dadansoddi effaith y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar economi Cymru. Dylai'r papur hefyd ystyried a fyddai buddsoddiadau eraill o fwy o fudd i economi Cymru.**

# 5. Proses y gyllideb

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

43. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro bod yr addasiadau gwerth £30,000 yn ei amcangyfrifon ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol, sy'n ymddangos yn y cynnig cyllidebol, i'w briodoli i'r rhagolygon diwygiedig yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer pensiynau. Mae ei lythyr i'r Pwyllgor Cyllid i'w weld yn Atodiad B

### Llwybr clir

44. Mae'r gyllideb atodol yn dangos bod £1.7m yn cael ei drosglwyddo i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yng nghyswllt prosiect y Llwybr Clir , i geisio symleiddio cyllid y llywodraeth.

45. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi camau olaf y prosiect ar waith, sef cynnwys cyrff noddedig a chyrff dynodedig eraill, yn y prosesau cyllidebu a chyfrifyddu.

46. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, meddai'r Gweinidog:

> "The UK Government implemented the final stages of these reforms, but we reserved the right for us to agree our appropriate budgeting and accounting regime in Wales. So, we needed to see what the effectiveness of the alignment project would be and its impact on UK departments. I was going to say anyway that, on issues like this, I am happy to progress with further discussions with the committee, if you feel that we can improve on our budget transparency."[24]

47. Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft, nodwyd y camau breision a gymerwyd o ran sicrhau tryloywder mewn adroddiadau ariannol, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda hi a'i swyddogion i wella'r broses ymhellach yn y dyfodol.

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynhyrchu nodyn i'r Pwyllgor yn manylu ar y cynnydd a wnaed, a'r gwaith sydd ar y**

[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 20 Chwefror 2013.

**gweill, o ran cynnwys cyrff noddedig a chyrff dynodedig eraill, yn y fframwaith cyllidebu a chyfrifyddu.**

## Atodiad A

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s14699/Gohebiaeth%20gan%20y%20Gweinidog%20dros%20Gyllid%20-%20Y%20Gyllideb%20Atodol%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s14700/Gohebiaeth%20gan%20y%20Gweinidog%20dros%20Gyllid%20-%20Y%20Gyllideb%20Atodol%20-%20Atodiad%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

## Atodiad B

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s14701/Gohebiaeth%20gan%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20-%20Cyllideb%20Atodol.pdf